Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , 24 **Medi 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-09/19: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Nan Davies Hughes

Clerc – Dr Catrin Jones.

Croesawyd y Cyng. Nan Davies Hughes i'w chyfarfod cyntaf. Roedd hi wedi arwyddo'r ffurflen derbyn swydd a chwblhau'r gofrestr buddiannau.

2-09/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Sian Williams; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Phil Jones; Cyng. William A Evans; Cyng. Robert T Price; Cyng Angela Hughes; Cyng Dafydd Lloyd

3-09/19: Datgan diddordeb

4-09/19 Cadarnhau cofnodion mis Awst 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-09/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-09/19: Gohebiaeth

a. **Un Llais Cymru - Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswyddau Cynghorau Cymuned a Thref o dan Adran 6 - e-bost 6 Medi 2019**
Nodwyd bod hi'n ofynnol i'r Cyngor fel corff cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud i gydymffurfio a'r ddyletswydd i gynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn ein meysydd gwaith presennol.
Roedd Cynllun gan Gyngor Gwynedd ond nid oedd ganddynt ganllawiau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned - nodwyd canllawiau Cyngor Caerfyrddin a oedd yn ddefnyddiol. Roedd y Clerc wedi bod mewn cyswllt gydag Adran Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd ac maent yn hapus i gydweithredu gyda ni ac i baratoi canllawiau priodol i Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd.. Ers i'r Clerc siarad gyda'r adran maent wedi paratoi drafft amlinelliad ar gyfer byw yn wyrdd sydd yn fwy cyffredinol na'r bioamrywiaeth.

Penderfyniad:

Croesawu bwriad Cyngor Gwynedd i baratoi canllawiau priodol ac yn y cyfamser i baratoi drafft cynllun ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor Tref sy'n amlinellu gwaith priodol y Cyngor a'n bwriadau.

b. **Cais am lythyr cefnogaeth gan Ffrindiau Gardd Natur Criccieth - e-bost 13 Medi 2019**
Roedd cais wed i dderbyn yn gofyn am gefnogaeth gan Cyngor Tref gan Ffrindiau Gardd Natur Criccieth i ymestyn trwydded neu les gan Cyngor Gwynedd a fyddai'n galluogi'r datblygiadau canlynol:
1. Gardd Natur
2. Gardd Gloynod Byw –nad yw ar hyn o bryd yn bosib cael mynediad iddo oherwydd draen
3. "Y Cae" sydd yn cael ei dorri gan Y Clwb Bowlio er mwyn ei gynnal

Penderfyniad:
I groesawu a chefnogi'r cais gyda llythyr cadarnhad gan y Cyngor Tref.

c. **Un Llais Cymru Sesiynau Hyfforddi Gogledd Cymru - e-bost 16 Medi 2019**
Roedd gwybodaeth am y cyrsiau wedi eu cylchredeg.

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth.

d. **Un Llais Cymru - Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru 5/10/19 - e-bost 30 Awst 2019**
Penderfyniad:
Y Cadeirydd i fynychu.

e. **Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd y Cambrian - e-bost 18 Medi 2019- cyfle i gyflwyno materion i'w trafod gan y gweithredwr trenau, Network Rail neu'r Pwyllgor yn gyffredinol**

Penderfyniad:
I gyflwyno'r materion dilynol: gofyn am ddiweddariad gan y gweithredwr trenau ar gyfer stesion Criccieth; Yr angen i wella cynnal a chadw llwybrau : y llwybr cul o'r maes parcio i'r stesion a hefyd yr ugain llath gyntaf o lwybr rhif 1 tuag at gyfeiriad Ysgol Treferthyr.

f. Llu Awyr Brenhinol y Fali – Ymweliadau Cynghorau Cymuned 9 a 29 Hydref – llythyr 12 Medi 2019
Gwahoddiad i ymweld wedi'i dderbyn.

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth.

7-**09/19: Ceisiadau Cynllunio**

a. C19/0844/35/CC –Torri coed wedi ei gwarchod o dan Gorchymyn Gwarchod Coed – Ty'n Ffrwd, 4, Wern y Wylan, Criccieth, LL52 0LF

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

8-09/19: Awdit Allanol o gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2018-19

Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r swyddfa ac yn disgwyl cael cadarnhad cwblhau'r awdit erbyn diwedd yr wythnos.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth.

9-09/19: Diweddariad Cyllid 2019-2020

a. Roedd adroddiad cyllidol gan y Clerc wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau. Roedd yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Awst 2019 a'r cysondeb banc am y cyfnod. Nodwyd bod £20,640.36 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £80,160 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Roedd £45,228.46 yn y cyfrif 'Community Account' a £30,463.62 yn y cyfrif 'Money Manager'.
Ar gyfer Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth, roedd y gwariant ar y prosiect wedi'i gwblhau bellach ac wedi cael ei gau gan Swyddfa'r Loteri – roedd y gwariant wedi cadw oddi fewn i'r £10,000 a ddyfarnwyd i'r Prosiect yn 2017-18 a'r gwariant terfynol yn y flwyddyn ariannol 2019/20 yn swm o £768.40.
Ar gychwyn mis Medi roedd ail hanner y praesept wedi'i dalu gan Gyngor Gwynedd - bydd hwn yn ymddangos ar y daenlen nesaf.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad a chytuno i gynnal cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid, Polisi Rheolaethol ar nos Fawrth 26 Tachwedd.

b. Cwyn i'r HSBC
Roedd llythyr cwyn dyddiedig 21 Medi i'r banc wedi ei gylchredeg ac e-bost gan aelod o staff 23 Medi 2019 a oedd wedi bod yn delio gyda'r mater. Roedd y mater ynglŷn â dilysu gwybodaeth "safeguarding" y banc. Er i'r Cyngor Tref gwblhau'r broses ar 12 Awst nid oedd y banc wedi cwblhau'r broses ac roedd bygythiad ganddynt i gau ein cyfrifon. Roedd yn sefyllfa hollol anfoddhaol a oedd wedi cymryd oriau o waith i geisio sicrhau dadrisiad.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cadeirydd a'r Clerc am eu gwaith. Rhoddwyd hawl i'r Clerc a'r Cadeirydd weithredu yn ôl yr angen tan y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref. Dylid hefyd ystyried y posibiliadau o ran bancio gyda'r Swyddfa Bost.

10-09/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell -
Roedd y diwrnod ymgynghori ar 4ydd Medi Neuadd Goffa Criccieth wedi mynd yn dda. Bydd adroddiad yr astudiaeth yn barod erbyn diwedd Hydref mewn pryd i gyfarfod y Cyngor Tref ym mis Tachwedd.
Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi cael cyfarfod gyda Swyddog y Loteri Genedlaethol i drafod posibiliadau gwneud cais am grant mawr ar gyfer y gwaith - Ffynhonnell "Pawb a'i Le".
Roedd yna sawl cam i'r cais a byddai'n bwysig iawn medru dangos arweiniad gan bobl ac ymgynghori gyda grwpiau/busnesau/mudiadau fel mae'r Cyngor wedi gwneud hyd yma.
Roedd posib yn ogystal edrych ar ffynonellau eraill o ariannu. Ond y cam cyntaf oedd ystyriaeth ofalus o'r Adroddiad Dichonoldeb gan y Cyngor Tref i weld beth oedd y posibiliadau. Byddai rhaid sicrhau cynllun busnes hyfyw ar gyfer yr adeilad ac hefyd datrys sefyllfa gyfreithlon yr adeilad gyda Chyngor Gwynedd. Heb gytundeb cyfreithio ar berchnogaeth yr adeilad, anodd fydd symuned ymlaen gyda'r datblygiad yma.

Penderfyniad:
Derbyn y wybodaeth a nodi y byddai'r Astudiaeth Dichonoldeb ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.

b. Strydoedd Unigryw
Digwyddiad nesaf bydd dadorchuddio cerflun Howard Bowcott ar y Maes am 3 o'r gloch y prynhawn ar 2 Tachwedd. Roedd asesiad risg ar gyfer y digwyddiad wedi ei gylchredeg ac angen cymeradwyaeth gan y Cyngor Tref. Roedd copïau ohono wedi cael eu cyflwyno i'r Gwasanaeth Tan a'r Heddlu ac ymateb wedi'i dderbyn gan y Gwasanaeth Tan i gadarnhau nad oedd ganddynt sylwadau. Roedd llyfr ar hanes siopau yng Nghriccieth yn cael ei baratoi gan y Cyng. Robert Cadwalader.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r asesiad risg ar gyfer digwyddiad 2 Tachwedd.

c. Asesiad angen tai fforddiadwy –nodwyd bod yr ymgynghoriad cyntaf wedi ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar 4ydd Medi a bod adroddiad yn cael ei baratoi.

Penderfyniad:
Derbyn yr adroddiad

d. Cynllun Cymunedol - -
Yn cyfarfod diwethaf cytunwyd i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn mynegi consyrn y Cyngor Tref ac i alw ar y Cyngor i wahardd defnydd o gerbydau dŵr personol a jet sgis yn y dyfroedd o gwmpas Bae Criccieth. Byddai hyn yn golygu eu gwahardd rhag mynediad i ddyfroedd o gwmpas Criccieth, Traeth y Graig Ddu, Porthmadog a Pwllheli. Roedd hyn o ganlyniad i ddefnydd peryglus o gerbydau dŵr personol o'r traeth ac o gwmpas ardal Bae Criccieth. Byddai hyn er mwyn sicrhau mwynhad tawel o'r traethau, eu defnydd diogel gan nofwyr a chaiacwyr a phadl fyrddwyr ac er mwyn gwarchod bywyd gwyllt lleol ac ecosystemau bregus. Cytunwyd hefyd i gychwyn deiseb i'w arwyddo er mwyn cefnogi'r gwaharddiad.
Roedd deiseb wedi cychwyn a dal ar agor a'r Clerc wedi e-bostio'r swyddog yng Nghyngor Gwynedd.

Roedd ymateb wedi'i dderbyn gan Swyddog Cyngor Gwynedd yn dweud nad oedd yn gweld y byddai'n ymarferol bosibl i'w gwahardd a hefyd yn nodi bod nifer o fusnesau lleol yn dibynnu ar y diwydiant am eu bywoliaeth. Nodwyd hefyd bod yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn bwriadu adolygu is ddeddfau cychod pŵer ar arfordir Gwynedd yn ystod y flwyddyn nesaf. Roedd y Swyddog yn awgrymu mai adolygu'r is ddeddfau byddai'r ffordd fwyaf adeiladol i gryfhau eu rheolaeth ar holl gychod pŵer sydd yn mordwyo arfordir Gwynedd. Hefyd gan fod defnydd sylweddol o gychod pŵer yn lansio a mordwyo oddi fewn dwr harbwr Porthmadog efallai bydd yn bosibl i'r mater hwn gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Harbwr sydd i'w gynnal ar y 9fed Hydref 2019. Roedd y Swyddog am drafod y mater hwn ymhellach gyda chydweithwyr er sicrhau bod unrhyw broses angenrheidiol yn dilyn cais gan y Cyngor Tref.

Penderfyniad:
Nodwyd yr ymateb. Nid oedd y Cyngor Tref yn gweld ei bod hi'n briodol cyfeirio at fusnesau lleol a'u bywoliaeth fel rhan o unrhyw ddadl ar y mater difrifol hwn. Roedd digwyddiadau dros yr haf yn faterion iechyd a diogelwch o'r radd flaenaf a oedd angen sylw a datrysiad fel mater o frys. Roedd ymddygiad a gweithredoedd wedi peryglu bywydau defnyddwyr y

moroedd lleol. A oedd trefniadau digonol mewn lle i fonitro defnydd am ymddygiad gan yr awdurdodau priodol? Roedd y Cyngor Tref yn gofyn i drafod y mater yn y Pwyllgor Harbwr 9fed Hydref fel cam cyntaf.

11-09/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Aros am ymateb Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth.

12-09/19 Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

Aros am adroddiad nol gan Gyngor Gwynedd.

Penderfyniad:

Derbyn y wybodaeth.

13-09/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

a. Nodwyd bod adroddiad gan Swyddog Cyngor Gwynedd wedi'i dderbyn ynglŷn â'r drafnidiaeth o gyfeiriad Pwllheli. Roedd arolwg Cyngor Gwynedd o gyflymder ar y ffordd yn dangos bod cerbydau'n trafaelio ar gyflymder sy'n llawer uwch na'r cyfyngiad cyflymder o 30mph. Roedd y data wedi ei drosglwyddo i'r heddlu, ac maent yn obeithiol y byddant yn rhoi sylw i orfodi'r cyfyngiad cyflymder yn yr ardal. Fel cam cyntaf, y bwriad gan Gyngor Gwynedd oedd newid yr arwyddion i fod yn rhai mwy gweledol gyda chefndir melyn i amlygu'r cyfyngiad cyflymder o 30mph. Y bwriad oed i osod yr arwyddion fyny o fewn y chwe wythnos nesaf.

   Penderfyniad:

   Roedd yn dda gan y Cyngor Tref dderbyn yr adroddiad hwn a bod Cyngor Gwynedd wedi gweithredu ar gais y Cyngor Tref.

b. Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Gyngor Gwynedd i gadarnhau cefnogaeth y Cyngor Tref i safiad trigolion Ty'n Rhos nad oedd y croesiad newydd yn ddigonol ac wedi danfon copi o'r petisiwn ganddynt. Roedd yr ymateb yn cadarnhau y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn dilyn gosod llinellau melyn ac os byddai angen sylw pellach byddant yn ystyried mesuriadau eraill.

   Penderfyniad:

   Derbyn y wybodaeth gan nodi nad oedd y Cyngor Tref yn hapus gyda'r sefyllfa a chynnig bod Cyngor Gwynedd yn ystyried gosod croesfan sebra mewn man priodol.

14-09/19 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Dim byd i'w adrodd

15-09/19 Parcio yng Nghriccieth

Roedd ymateb wedi'i dderbyn gan Cyngor Gwynedd i gadarnhau y bydd arwyddion newydd yn ei lle i gyfeirio traffig i'r maes parcio tu nôl y Stryd Fawwr.

Penderfyniad:

Croesawu'r gweithredu yma gan Cyngor Gwynedd.

16-09/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

17-09/19 Meinciau Tref Criccieth

Nodwyd y gwaith da gan Criccieth yn ei Blodau i adfer cyflwr dros 30 o feinciau yn y dref - roedd hyn hefyd wedi ei gydnabod ar dudalen facebook Hwb Criccieth.

Penderfyniad:

I ysgrifennu gair o ddiolch i Criccieth yn ei Blodau am y gwaith.

18-09/19 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu eto at y Swyddog Cyngor Gwynedd. Roedd ymateb wedi'i dderbyn yn cadarnhau ei fod wedi cael cyfarfod gyda'u cyfreithiwr a swyddogion eraill yn hawliau tramwy yn ddiweddar ac o ganlyniad am geisio trefnu cyfarfod efo'r perchennog i roi un cyfle arall i weld os oes modd cael cydweithrediad cyn gweithredu'n bellach.

Penderfyniad:.

Derbyn yr adroddiad.

19 -09/19 Derbyniadau

Cyngor Gwynedd – ail hanner y praesept £21,000.00

20-09/19: Taliadau

- Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) £34.09 (siec 101355)
- Cyflog y Clerc (Medi) £755.66 (siec 101356)
- Gwasg Cymru £441.20 (siec 101357)
- Costau Clerc £82.10 (siec 101358)
- Un Llais Cymru £100.00 (siec 101359)

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Penderfyniad:

21-08/19: Materion caeedig (i aelodau'n unig)

Daeth y cyfarfod i ben am 8 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 12 Tachwedd 2019**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **4 Tachwedd 2019**